| Ymyrraeth | Teithio Cynaliadwy | | | Gwyrdd | Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Oren | Cynnydd tu ôl o ran bwrw'r targed, ond parhau'n gyraeddadwy |
| Arwain | Ceri Doyle / Craig Lane | Cyfnod Adrodd | C3/4 2022-23 | Coch | Cynnydd ymhell tu ôl o ran bwrw'r targed |

## Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

**CAM 1: BGC i ddod yn hyrwyddwyr Teithio Cynaliadwy:** Wrthi'n aros i gael gwybod gan Fwrdd Teithio Cynaliadwy Gwent pryd y bydd yr arolwg staff yn barod i'w anfon.

**CAM 2: Creu amgylchedd y bydd trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn flaenoriaeth ynddo:** Mae Trafnidiaeth Cymru yn arwain y gwaith ynghlwm â phennu dichonolrwydd llogi beiciau ar y stryd. Cyflwynwyd y ceisiadau am gyllid ar gyfer gwaith gwella yn 2023/24 ar sail y Map Rhwydwaith Teithio Llesol. Mae Casnewydd Fyw wedi bod yn cyflwyno gweithdai sgiliau seiclo yn seiliedig ar gyllid gan Gomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru.

**CAM 3: Annog defnyddio ULEV:** Cyn bo hir bydd Cyngor Casnewydd yn cyhoeddi strategaeth ddrafft o ran codi tâl ar gyfer ymgynghori. Aeth mannau gwefru cyflym preswyl ar y stryd yn fyw mewn naw lleoliad ledled Casnewydd y llynedd gan dargedu ardaloedd lle nad oes llawer o barcio oddi ar y stryd ar gael. Drwy Brifddinas-Ranbarth Caerdydd gosodwyd 12 o fannau gwefru ychwanegol mewn meysydd parcio cymunedol at ddefnydd ymwelwyr a phreswyl ac rydym yn gweithio gyda Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar 12 safle arall, yn ogystal â darparu 10 ohonom ein hunain. Rydym hefyd wedi gwneud cais am gyllid Llywodraeth Cymru i ddarparu 50 o fannau gwefru ar y stryd a hybiau gwefru ym Maes Parcio Ffordd y Brenin a Phentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd.

| Prif Risgiau / Rhwystrau | Statws | Camau Lliniarol |
|---|---|---|
| *Peidio â defnyddio'r cyfleoedd sy'n deillio o gomisiwn yr M4.* | Uchel | *Mae cynrychiolwyr SEWTC yn eistedd ar grŵp Teithio Cynaliadwy'r BGC i sicrhau bod y BGC yn cymryd rhan lawn yn y broses hon.* |
| *Diffyg cyllid parhaus ar gyfer ymyriadau teithio llesol mewn ysgolion.* | Canolig | *Derbyniwyd £203k yn 2021-22 ar gyfer y cynllun strydoedd di-draffig ger ysgolion.* |
| *Nid yw'r cynllun llogi beiciau ar y stryd yn mynd yn ei flaen* | Canolig | *Cais am gyllid yn barod i'w gyflwyno. I'w gyflwyno pan fydd y cylch ariannu nesaf ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.* |

| Mesurau Perfformiad | | Amserlen | | Targed | Gwirionedd ol | CMG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam 1: Siarter Teithio** | Sefydliadau sydd wedi cofrestru ar draws Gwent | Tach 2021 | | 15 | 23 | Gwyrdd |
| **Cam 2: Teithio Llesol** | % Cynnydd mewn teithiau yn ôl mesuryddion ar lwybrau teithio llesol o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol ym mhob chwarter (noder efallai na fydd y ffigurau hyn yn gywir oherwydd problemau gyda mesuryddion) | 2020-21 | Blwydd yn | 25% | 47% | Gwyrdd |
| | | 2021-22 | C1 | | 30% | Gwyrdd |
| | | | C2 | | 14% | Oren |
| | | | C3 | | -9% | Coch |
| | | | C4 | | -17.5% | Coch |
| | | | Blwydd yn | | -10% | Coch |
| **Cam 3: ULEV** | Nifer y bysus ULE ar waith | 2022 Rhagfyr | | 30 | 48 | Gwyrdd |
| | Pwyntiau gwefru wedi'u gosod | Mawrth 2021 | | 40 | 97 | Gwyrdd |

## Cynlluniau'r Dyfodol

**CAM 1:** Mae holiadur staff yn cael ei gwblhau a chaiff ei yrru gan bob sefydliad yn Chwarter 1 2023. Hefyd, ystyrir dwyn gweithgaredd ymlaen i Gynllun Gweithredu Lleol newydd Casnewydd

**CAM 2:** Rhaglen weithredu gyflawn gan gynnwys pont droed Devon Place Hefyd, ystyrir dwyn gweithgaredd ymlaen i Gynllun Gweithredu Lleol newydd Casnewydd

**CAM 3:** Mae Strategaeth Codi Tâl EV ddrafft wedi'i llunio a dylai'r ymgynghoriad cyhoeddus fynd rhagddo yn C1 2023. Hefyd, ystyrir dwyn gweithgaredd ymlaen i Gynllun Gweithredu Lleol newydd Casnewydd